# Cenn@d

CHWEFROR 4 2026 YN CYNNWYS *Y GOLEUAD* A *SEREN CYMRU* RHIF 258


## Siarter ar gyfer lle a rôl plant ym mywyd yr Eglwys

Cyhoeddwyd y siarter 10 pwynt isod am y tro cyntaf ddeng mlynedd ar hugain yn ôl gan rwydwaith gwaith plant Eglwysi Ynghyd ym Mhrydain ac Iwerddon (CTBI), ac ar y pryd fe gyhoeddodd Cyngor yr Ysgolion Sul addasiad Cymraeg ohono.

Fe'i rhannwyd yn eang bryd hynny i gynorthwyo eglwysi i drafod lle a rôl plant ym mywyd ein heglwysi. Yn y cyfnod hwnnw roedd yna lawer mwy o blant yn mynychu oedfaon yn rheolaidd, ond erbyn hyn profiad prin yw dod ar draws plant mewn oedfa ar y Sul. Diolch am yr eglwysi hynny sy'n gofalu bod yna ddarpariaeth ar gyfer plant, ond tybed pa mor bell ydyn ni'n barod i fynd er mwyn sicrhau bod 10 pwynt y siarter yn realiti yn ein heglwysi? Beth am drefnu cyfarfod yn lleol i drafod cynnwys y 10 pwynt a gweld i ba raddau rydym yn cytuno efo'r pwyntiau, a sut allwn ni fynd ati i'w gweithredu?

1. Mae plant yn bartneriaid cyfartal ag oedolion ym mywyd yr eglwys.
Ceisiwn ofalu bod plant yn yr eglwys hon yr un mor bwysig ag oedolion.

2. Mae addoliad Cristnogol ar gyfer plant yn ogystal ag oedolion.
Rydym yn ceisio gofalu bod pawb yn yr eglwys hon yn medru addoli Duw mewn llawer o ffyrdd gwahanol, waeth beth yw eu hoedran.

3. Mae dysgu a thyfu mewn ffydd ar gyfer yr eglwys gyfan, yn oedolion a phlant.
Ceisiwn ofalu bod ein heglwys yn helpu pawb i barhau i ddysgu a datblygu yn eu taith ffydd.

4. Mae cymdeithas a chwmnïaeth ar gyfer pawb, a phawb yn perthyn yn ystyrlon i'w gilydd.
Ceisiwn ofalu bod ein heglwys yn awyrgylch lle mae pawb yn teimlo ac yn gwybod eu bod yn perthyn.

5. Mae gwasanaethu a chyfrannu ar gyfer plant, yn ogystal ag oedolion.
Yn yr eglwys hon, rydym yn ceisio gofalu bod plant ac oedolion yn cael gwneud pethau i helpu Duw, yr eglwys a phobl eraill yn y gymuned a'r byd.

6. Mae'r alwad i efengylu a thystiolaethu ar gyfer holl bobl Dduw, yn blant ac oedolion.
Mae Duw eisiau i bawb rannu'r Newyddion Da gydag eraill. Fel eglwys rydym yn ceisio gwrando a helpu pawb o bob oed i rannu'r hyn rydym wedi ei ddysgu.

7. Mae'r Ysbryd Glân yn siarad yn bwerus drwy blant yn ogystal ag oedolion.
Gall pobl ddysgu beth mae Ysbryd Glân Duw eisiau ei ddweud wrthyn nhw drwy'r hyn a ddywedwn ac a wnawn. Mae ein heglwys yn gwrando ar leisiau plant fel rhan o hyn.







8. Mae darganfod a datblygu doniau mewn plant ac oedolion yn gyfrifoldeb ar yr eglwys.
Mae ein heglwys yn ceisio helpu pob un aelod i ddarganfod eu doniau arbennig a'u helpu i ddatblygu a defnyddio'r doniau hynny.

9. Fel teulu'r eglwys, rhaid inni ddysgu gwneud dim ond y pethau hynny mewn grwpiau oedran ar wahân na allwn eu gwneud gyda'n gilydd yn synhwyrol.
Mae ein heglwys yn ceisio creu cyfleoedd inni wneud pethau gyda'n gilydd fel un teulu, ac nid oes ganddi ormodedd o bethau sydd ar gyfer oedolion yn unig.

10. Mae'r cysyniad o 'offeiriadaeth yr holl saint' yn cynnwys plant.
Gall pawb yn ein heglwys fod yr un mor agos at Dduw, trwy weddïo a gwasanaethu.

Am fwy o syniadau ynghylch sut i groesawu plant i'n hoedfaon, ewch i wefan www.ysgolsul.com a chlicio ar Lle plant ym mywyd yr eglwys - Cyngor Ysgolion Sul ac Addysg Gristnogol Cymru

*Aled Davies*


Rhodd Neuadd-lwyd i Fadagasgar
Tudalen 2

100.Cymru: Diwrnod dros Gymru
Tudalen 5

Myfyrdod ar gyfer Sul Cyfiawnder Hiliol, 8 Chwefror 2026
Tudalen 8

# Rhodd Neuadd-lwyd i Fadagasgar

Yn ddiweddar, cafodd Rebecca a minnau'r fraint o groesawu'r Parchedig Ddr Zaka Andriamampianina, llywydd etholedig y FJKM (Eglwys Iesu Grist ym Madagasgar), fy mam eglwys, sydd â thua phum miliwn o aelodau. Treuliodd y Parchedig Zaka ychydig ddyddiau gyda ni yng Nghymru cyn teithio ymlaen i Lundain ar gyfer Cynhadledd Ysgrifenyddion Cyffredinol Cyngor y Genhadaeth Fyd-eang.

Yn ystod ei gyfnod yma aethom â'r Parchedig Zaka i Gapel Neuadd-lwyd, yr achos sydd â rhan annatod yn stori Cymru a Madagasgar. O'r cwmwd tawel hwn o sir Aberteifi y cychwynnodd David Jones a Thomas Bevan ym 1818 fel y cenhadon cyntaf i Fadagasgar. Ymwelsom hefyd â chartref y Parchedig Thomas Phillips ac adfeilion yr academi lle gwasanaethodd fel prifathro. Er mai dim ond dwy ystafell fechan oedd yn yr academi, hyfforddwyd dros 200 o weinidogion yno o dan ei arweiniad. Roedd Thomas Phillips hefyd yn weinidog ar gynulleidfa Capel Neuadd-lwyd.

Mae un stori a ddechreuodd ym 1816 wedi ei serio ar gof Cristnogion Madagasgar. Roedd y Parchedig Thomas Phillips yn darllen papur newydd pan ddaeth ar draws adroddiadau pryderus o Fadagasgar: ynys wedi'i dal mewn tywyllwch ysbrydol ac yn dioddef o ganlyniad i'r fasnach mewn caethweision. Yr un diwrnod, bu'n astudio Actau 16, lle cafodd Paul weledigaeth yn ei alw i Facedonia. Y noson honno, breuddwydiodd Phillips am ddyn yn sefyll ar ynys fach, yn erfyn, "Dewch draw atom i'n helpu!" Ysgydwodd y freuddwyd ef yn ddwfn. Credai fod Duw yn ei alw i Fadagasgar, ond eto roedd yn gwybod ei fod yn rhy hen i fynd a bod ganddo gyfrifoldebau yn yr academi.

Trannoeth, rhannodd Phillips ei freuddwyd gyda'i fyfyrwyr. Pan orffennodd, gofynnodd yn syml, "Pwy a aiff i Fadagasgar i bregethu'r efengyl?" Ar unwaith, cododd David Jones ar ei draed. Eiliadau'n ddiweddarach, a dagrau'n llifo i lawr ei wyneb, safodd Thomas Bevan wrth ei ymyl.

Mae Neuadd-lwyd yn parhau i fod yn lle arbennig a chysegredig yn hanes Cristnogaeth ym Madagasgar. Roedd comisiynu Jones a Bevan ar 20–21 Awst 1817 yn ddigwyddiad pwysig i Anghydffurfwyr Cymru ar y pryd gan fod dros 5,000 o bobl wedi mynychu'r gwasanaeth. Roedd pum mil o ddynion a menywod Cymru yn gweddïo'n daer dros ddau genhadwr ifanc a'u teuluoedd wrth iddynt baratoi i adael am ynys bell nad oedd fawr neb wedi clywed amdani, sef Madagasgar.




Y Parchedig Zaka gyda Miara yn Neuadd-lwyd

### Ymadael

Gadawodd Jones a Bevan Ynysoedd Prydain ar 9 Chwefror 1818 a chyrraedd Mauritius ar 3 Gorffennaf. Teithiasant yn gyntaf i Tamatave (Toamasina) ar arfordir dwyreiniol Madagasgar, gan gyrraedd ar 18 Awst. Cawsant eu calonogi gan y croeso cynnes a gawsant, felly, dychwelsant i Fauritius i gasglu eu teuluoedd. Cyraeddasant yn ôl ar wahân, Jones yn gyntaf ym mis Tachwedd, ond bu trychineb. Bu farw ei wraig a'i blentyn newydd-anedig o falaria ddiwedd 1818.

Yn gynnar ym 1819, cyrhaeddodd Bevan Toamasina gyda'i deulu. Yno, fe gafodd y newyddion torcalonnus fod David Jones yn wael iawn. Ychydig ddyddiau'n ddiweddarach trawyd teulu Bevan gan falaria. Bu farw ei blentyn ar 20 Ionawr 1819, ef ei hun ar 31 Ionawr, a'i wraig ar 3 Chwefror. Claddwyd y tri yn Toamasina. O fewn tri mis i gyrraedd Madagasgar, roedd pump o'r chwech wedi marw; dim ond David Jones a oroesodd.

Cyrhaeddodd y newyddion am y marwolaethau hyn Gymdeithas Genhadol Llundain ym mis Tachwedd 1819. Penodwyd gŵr ifanc o Gymro a astudiai yn Gosport, sef David Griffiths, i gymryd lle Bevan er mwyn iddo gynorthwyo Jones. Cafodd ei neilltuo fel cenhadwr ym mis Gorffennaf 1820; gadawodd Loegr ym mis Hydref, a chyrhaeddodd Mauritius ym mis Ionawr 1821.

Yn y cyfamser, roedd Jones wedi gwella ym Mauritius a dychwelodd i Fadagasgar ym 1820. Croesawodd y Brenin Radama ef yn gynnes, a dechreuodd Jones addysgu ar unwaith. Ymunodd Griffiths ag ef ar 20 Mai 1821. Roedd David Jones eisoes wedi agor ysgol ym mis Tachwedd 1820 i addysgu plant y teulu brenhinol, un o'r ysgolion cyntaf ym Madagasgar. Ar gais y brenin, agorodd Griffiths ysgol arall ar 20 Hydref 1821 gyda naw bachgen, tra oedd gan Mrs Griffiths chwech o ferched. O fewn tri mis, roedd deugain o ddisgyblion.

Meistrolodd Jones a Griffiths yr iaith Falagaseg yn gyflym a'i defnyddio i bregethu ac addysgu. Bryd hynny, nid oedd ffurf ysgrifenedig i'r iaith. Ond gweithiodd y cenhadon yn galed gyda myfyrwyr Malagasaidd i'w chofnodi mewn dull ffonetig. Gyda chymorth deuddeg ysgolhaig Malagasaidd dawnus – y Roambinifololahy – cynhyrchwyd geiriadur a gwerslyfrau, ac ym 1824 dechreuwyd cyfieithu'r Beibl. Erbyn canol 1826 cwblhawyd y Testament Newydd, ac erbyn mis Tachwedd 1827, roedd y Beibl cyfan wedi ei gyfieithu. Pobl Madagasgar oedd y genedl Affricanaidd gyntaf i gael y Beibl cyfan wedi'i gyfieithu i'w hiaith, cyfieithiad sy'n dal i gael ei gydnabod heddiw am ei geinder a'i gywirdeb.

O fewn deng mlynedd, er i David Jones ddioddef pyliau mynych o'r clefyd malaria, roedd y cenhadon wedi sefydlu dros gant o ysgolion yn y brifddinas Antananarivo a'r cyffiniau. Hefyd, hyfforddwyd athrawon dirifedi, a dysgwyd oddeutu 15,000 o fyfyrwyr Malagasaidd i ddarllen ac ysgrifennu.

Pan fu farw'r Brenin Radama ym 1828, newidiodd pethau. Gwelwyd Cristnogaeth fel bygythiad; cafodd y cenhadon eu gyrru o'r wlad a bu 26 mlynedd o erledigaeth. Gwaherddid darllen y Beibl a chyfarfod i weddïo. Claddodd teuluoedd eu Beiblau neu eu cuddio mewn ogofâu. Rhwygwyd Beiblau'n adrannau fel bod modd eu rhannu'n gyfrinachol. Eto, er gwaethaf y perygl, tyfodd yr eglwys yn gyflymach yn ystod cyfnod yr erledigaeth nag yng nghyfnod y cenhadon.

Heddiw, mae dros 70% o bobl Madagasgar yn Gristnogion.

Daeth ein hymweliad â Neuadd-lwyd i ben yn y Llyfrgell Genedlaethol yn Aberystwyth. Dangosodd Dr Dafydd Tudur un o'r Beiblau Malagaseg gwreiddiol inni. Roeddem wrth ein bodd, a threuliasom oriau yn ei ddarllen. Roedd y blwch lle cedwid y Beibl wedi'i labelu â'r geiriau, "Beibl Malagaseg 1830 – David Jones a David Griffiths". Gofynnais i'r Llyfrgell a fyddai modd cofnodi enwau'r deuddeg

(parhad ar y dudalen nesaf)

## *Rhodd Neuadd-lwyd i Fadagasgar*

*(parhad o dudalen 2)*

ysgolhaig Malagasaidd a wnaeth y cyfieithiad yn bosibl.

Wrth i ni sefyll yn Neuadd-lwyd, cefais fy atgoffa bod gwaith Duw yn aml yn dechrau mewn mannau dinod a anwybyddir gan y byd. O'r capel tawel, Cymreig hwn daeth mudiad a gyrhaeddodd galon Madagasgar.



Ymweld â'r Llyfrgell Genedlaethol

Ar ochr arall y byd, dyfalbarhaodd Cristnogion Madagasgar yn y ffydd, a hynny trwy galedi ac erledigaeth.

I mi, fel Malagasiad, nid hanes yn unig yw'r stori hon; mae'n rhan o'm hetifeddiaeth ysbrydol fy hun. Rwy'n teimlo'n freintiedig iawn nawr i wasanaethu ochr yn ochr ag eglwysi Cymru, gan gynnig rhywbeth yn ôl o'r ffydd a'r haelioni a estynnwyd i ni gyntaf gan Gristnogion Cymru dros ddwy ganrif yn ôl.

Nid stori Gymreig yn unig yw stori Neuadd-lwyd bellach, nac un Falagasaidd yn unig. Mae'n etifeddiaeth a rennir. Mae'r camau a gymerwyd gan ychydig o bobl yng Nghymru yn parhau i adleisio ym mywydau miliynau ym Madagasgar heddiw. Gwnaeth ein hymweliad yn glir nad yw'r cysylltiad rhwng ein dwy genedl yn rhywbeth yn y gorffennol yn unig; na, mae'n fyw, yn cael ei drysori, ac yn dal i ddwyn ffrwyth.

*Miara Rabearisoa*



Dr Zaka yn dal y Beibl a gladdwyd

Eglwys Bresbyteraidd Cymru

## Swyddfa'r Gymanfa
## Pennaeth Ariannol

Cefndir – Mae'r Eglwys yn ceisio gwasanaethu cymunedau yng Nghymru ac mewn rhannau eraill o'r Deyrnas Unedig trwy gyfrwng mwy na 440 o gynulleidfaoedd a thros 12,000 o aelodau sy'n perthyn i'r Eglwys. Trwy fywyd a thystiolaeth yr eglwysi hyn, ein Gweinidogion, ein Gweithwyr Gweinidogaethau, ein Canolfan Plant ac Ieuenctid a'n Canolfan Hyfforddi Lleygwyr, rydym yn ymdrechu i geisio model gwaith cyd-destunol a chyfredol sy'n anelu at ddod â gobaith, goleuni a dylanwad yr Efengyl i rym ar ein cenhedlaeth.

Mae'r Eglwys yn credu y dylem sicrhau Pennaeth Ariannol sydd â chyfrifoldeb penodol am gynghori ar stiwardiaeth ariannol yr Eglwys.

Oriau: 35 awr yr wythnos.
Cytundeb: Parhaol, gyda chyfnod prawf o 6 mis.
Cyflog: 58–62 (£47,660–£50,028 pro rata), ar raddfa cyflog EBC.
Mae cyfle i ymuno â Chynllun Pensiwn EBC.
Lleoliad: Mae'r swydd hon wedi'i lleoli yn swyddfa'r Gymanfa, 81 Heol Merthyr, Yr Eglwys Newydd, Caerdydd, ac o gartref.

Mae'r swydd hon yn amodol ar ddau eirda boddhaol.

Mae Gofyniad Galwedigaethol Cristnogol dymunol yn berthnasol i'r swydd hon – gweler y 'cefndir' uchod.

Am ragor o wybodaeth ac am ffurflen gais, cysylltwch ag:
e-bost – swyddfa.office@ebcpcw.cymru
Ffôn – 02920 627 465

**Dyddiad cau: 24 Chwefror 2026 am 4yp**

## TÂN O'R NEF

**Bywyd a Gwaith Ann Griffiths**

**yng nghwmni**

**Sian Meinir**

**Capel Tonyfelin, Caerffili**

**22 Mawrth am 3 o'r gloch**

**Cyfarfod arbennig i ddathlu 250 mlynedd ers geni yr emynyddes o Ddolwar Fach.**

**Ei hanes, ei hemynau a'i llythyrau.**



# Newyddion diweddaraf Cytûn

Wrth i'r flwyddyn newydd fynd rhagddi, rydym yn falch o rannu rhai o'r ychwanegiadau diweddaraf i wefan Cytûn, ynghyd â diweddariad byr am newidiadau rydym yn eu gwneud i'r ffordd rydym yn cyfathrebu â chi.

**Ychwanegiadau diweddar i wefan Cytûn**

Ers mis Ionawr 2026, mae nifer o eitemau newyddion ac adnoddau newydd wedi'u hychwanegu at y wefan:

- **Adnoddau newydd Sul Cyfiawnder Hiliol** — adnoddau dwyieithog i gefnogi eglwysi ar Sul Cyfiawnder Hiliol: https://www.cytun.co.uk/adnoddau-dydd-sul-cyfiawnder-hiliol/
- **Hawlio Cristnogaeth: gwahoddiad i eglwysi archwilio ffydd a phoblyddiaeth** — darlith gyhoeddus am ddim yn archwilio ffydd a bywyd cyhoeddus: https://www.cytun.co.uk/hawlio-cristnogaeth/
- **Cadeirydd Nesaf Cytûn** — penodwyd cadeirydd newydd i Cytûn, sef Kathryn Stowers, Capten ym Myddin yr Iachawdwriaeth ac arweinydd eu gwaith yng Nghasnewydd, a Chanon Eciwmenaidd cyntaf Eglwys Gadeiriol Casnewydd: https://www.cytun.co.uk/cadeirydd-nesaf-cytun/
- **Newidiadau arfaethedig i ddeddfwriaeth gofal plant** — trosolwg o ymgynghoriad Llywodraeth Cymru a'i oblygiadau posibl: https://www.cytun.co.uk/newidiadau-gofal-plant/
- **Diweddariad ar y Bil Oedolion â Salwch Terfynol (Diwedd Oes)** — gwybodaeth am y Ddadl Cydsyniad Deddfwriaethol yn y Senedd. https://www.cytun.co.uk/diweddariad-cymorth-i-farw/

Gobeithiwn y bydd y cynnwys hwn yn parhau i gefnogi eglwysi a chymunedau ffydd ledled Cymru i ymgysylltu'n ystyriol â'r bywyd cyhoeddus.

Mae'r holl newyddion ac adnoddau diweddaraf ar gael yma: https://www.cytun.co.uk

**Newidiadau i'r wefan a'r cylchlythyr**

Rydym hefyd yn parhau i weithio ar wella gwefan Cytûn a'r cylchlythyr hwn. Ein nod yw sicrhau bod y cynnwys yn berthnasol, yn amserol ac yn hawdd ei gyrchu, ac yn cael ei ddarparu mewn ffordd sy'n cydymffurfio'n llwyr â gofynion diogelu data.

*Iestyn Davies*
*Swyddog Polisi Cytûn*

# Datganiad gan rwydwaith Merched Cymru dros Heddwch





- Mae Cwrdiaid a nifer o leiafrifoedd gogledd-ddwyrain Syria yn wynebu hil-laddiad ar hyn o bryd o du llywodraeth Syria, Twrci a hurfilwyr Jihadaidd a gefnogir gan y grymoedd hyn. Mae'r rhain wedi eu cymeradwyo gan Israel, yr Unol Daleithiau a llywodraeth y Deyrnas Unedig.
- Mae dros 168,000 o bobol wedi cael eu herlid o'u cartrefi, y mwyafrif llethol o ardal Gwrdaidd Sheikh Maqsud yn Aleppo. Mae nifer o bobol, gan gynnwys plant, wedi eu lladd.
- Mae tref Kobani dan warchae, ac mae pum plentyn wedi marw hyd yn hyn o ganlyniad i weithredoedd Llywodraeth Syria yn diffodd trydan, dŵr a'r we yn y ddinas.
- Mae Twrci wedi bod yn bomio o'r awyr, ac mae nifer fawr o blant a phobol gyffredin yn cael eu lladd. Mae fideos ar-lein yn tystio bod y milwyr hyn, yn gysylltiedig â llywodraeth Syria, yn bwriadu gweithredu hil-laddiad yn erbyn y Cwrdiaid.
- Rhaid i ni sefyll gyda chwyldro merched Rojava. Dyma ynys o obaith mewn byd sy'n symud fwyfwy tuag at ffasgaeth.
- Rydym ni, Ferched dros Heddwch, yn condemnio'r lladd.

Galwn ar bobol Cymru i gefnogi brwydr y Cwrdiaid, merched a lleiafrifoedd ethnig Rojava drwy wneud y canlynol:

- Dysgu mwy am hanes y Cwrdiaid a Chwyldro Rojava, gan geisio dilyn newyddion dibynadwy. Mae newyddion ffug cyson am y sefyllfa ar y we. Dilynwch: @theArmagi, @star_kongra Star, @channel8english, @rojavaic, @ kurdish_soli_cymru, @jineoloji_eng ac @academy_of_democraticmodernity.
- Lluniwch ddatganiadau fel hwn ar ran eich mudiad, eich undeb, eich cyngor tref, eich grŵp ymgyrchu, ac anfon copi at @kurdish_soli_cymru fel y gallwn ei rannu a'n partneriaid yng Nghwrdistan.
- Trefnwch brotestiadau a gweithredoedd, gan ymgysylltu hefyd â Chwrdiaid yn eich cymuned chi. Anfonwch fanylion eich digwyddiad at: @riseup.4rojava (rhwydwaith rhyngwladol).
- Ysgrifennwch at eich Aelod Seneddol yn y Senedd neu San Steffan.
- Codwch arian a chyfrannwch at fudiad @heyvasor sy'n darparu gofal meddygol argyfwng yn Rojava.

# 100.CYMRU




Dyma ni, wedi cyrraedd mis Chwefror yn barod. Ac mae hynny'n golygu un peth i ni yn 100 i Gymru – mae'r Diwrnod dros Gymru bron yma! Diolch yn fawr iawn i'r cannoedd sydd eisoes wedi prynu eu tocynnau. Rydym yn edrych ymlaen at eich gweld chi i gyd yn Llanelwedd a chlywed beth sydd gan Dduw ar ein cyfer. Gweddïwch y byddwn yn cael ein herio, ein hysbrydoli a'n hannog. Mae rhywbeth i bawb yno – gan gynnwys gwaith plant ac ieuenctid. Mwy o wybodaeth isod.

Heb benderfynu eto a ydych chi'n mynd i deithio i Lanelwedd? Dyma rai manylion all eich helpu i gynllunio eich diwrnod.

**Amserlen Fras**



9:30yb
**Drysau'n agor**

10:00
**Sesiwn 1 gyda neges gan Andy Ollerton**

12:00
**Cinio**

13:00
**Sesiwn 2 gyda neges gan Steffan Morris**


14:00
**Egwyl**

15:00
**Sesiwn 3 gyda neges gan Becky Davies**

**Ein bwriad yw gorffen erbyn 17:00**


Yn ystod yr holl brif sesiynau byddwn hefyd yn clywed mwy am waith 100 i Gymru, gan blanwyr eglwysi, cyfweliadau ac argymhellion am lyfrau, ac wrth gwrs addoliad, gweddi ac amser i fyfyrio. Gweddïwn y byddwch yn cael eich ysbrydoli, eich calonogi a'ch bendithio gan ein hamser gyda'n gilydd.

**Prif Siaradwyr**










**Beth am y plant a'r ieuenctid?**



Bydd gennym waith plant yn rhedeg yn ystod sesiynau'r bore a'r prynhawn. Bydd y rhain yn y Gymraeg a'r Saesneg. Bydd gennym hefyd waith ieuenctid yn rhedeg yn ystod rhai sesiynau, a gallant ymuno â ni yn y prif gyfarfodydd pan nad yw hynny'n digwydd.

**Cwestiynau Cyffredin**

Rydym wedi paratoi tudalen Cwestiynau Cyffredin ar ein gwefan sy'n cynnwys llawer o wybodaeth am eich diwrnod gyda ni yn Llanelwedd. O 'ble i barcio' i 'beth sydd i ginio', rydym yn gobeithio y bydd y rhan fwyaf o'ch cwestiynau'n cael eu hateb yno. Mae croeso i chi hefyd gysylltu â ni ar post@100.cymru gydag unrhyw gwestiynau neu ymholiadau ychwanegol.

**Cwestiynau Cyffredin DDG**

Ac, wrth gwrs, os nad ydych chi wedi prynu eich tocynnau eto, nawr yw eich cyfle! Rydym ni'n edrych ymlaen at weld ein brodyr a'n chwiorydd yn Llanelwedd ddiwedd y mis – gwnewch yn siŵr eich bod chi yno!

**Tocynnau DDG**

**Diolch am barhau i weddïo dros waith 100 i Gymru. Rydym ni'n eich gwerthfawrogi'n fawr iawn!**


**Pob bendith,**

**Tîm 100 i Gymru x**

100.CYMRU

# Codi'r Llen: merched yr Hen Destament a'u dewisiadau

Maes Llafur i oedolion 2025/26



## Codi'r Llen 15 – Ymson Ruth

Cefais fy ngalw'n dramorwraig, yn fewnfudwraig, rhywun nad oedd yn perthyn. Nid ag inc y sgrifennwyd fy stori, ond â ffyddlondeb. Priodais yn ifanc ac ro'n i'n gorlifo â gobaith. Credwn y byddai cariad yn f'angori, ond yn hytrach daeth marwolaeth i'm rhan fel lleidr yn y nos. Cipiwyd fy nhad yng nghyfraith ac yna fy ngŵr. Chwalwyd fy nyfodol. Creadur bregus iawn yw gwraig weddw, a dyna fy hanes i. Profais pa mor gyflym y mae'r byd yn anghofio poen rhywun arall, yn enwedig artaith merch heb wryw wrth ei hochr.

Pan ddywedodd Naomi, fy mam yng nghyfraith, wrthyf ei bod yn ystyried dychwelyd i Fethlehem, rhoddodd rywbeth imi, sef posibilrwydd. Roedd ei geiriau'n ategu'r boen yr oedd hithau wedi'i phrofi, ond eto'n dangos penderfyniad. Ac y mae i bob penderfyniad ei werth. Mynnodd fy mod i ac Orpa'n mynd adre, yn dychwelyd at ein pobl. Dyna oedd y peth synhwyrol i'w wneud.

Ond nid peth synhwyrol yw cariad bob amser. Ro'n i wedi cerdded gyda Naomi yn ei cholled. Gwyliais ei ffydd yn simsanu ond eto'n goroesi. Ro'n i'n ei hedmygu ac roedd hi'n ddolen barhaol â'm gŵr a'r cariad hwnnw fu rhyngom. Ffurfiais fy marn yn weddol gyflym a heb feddwl ymhellach, llefarais y geiriau'n huawdl: "Ble bynnag yr ei di, af finnau. Lle bynnag y byddi'n aros, byddaf fi yno. Dy bobl di fydd fy mhobl i; bydd dy Dduw di yn Dduw i minnau. Lle bynnag y byddi di'n marw, byddaf finnau hefyd farw yno a'm claddu yn yr un fan."

Wyddwn i ddim ar y pryd mai gras a gariodd y geiriau o'm genau i glustiau Naomi. Gras hefyd a greodd yr agosatrwydd rhyngom. Roedd angen y naill a'r llall arnom ni, ac mae ar bawb angen gras.

Wedi inni gyrraedd Bethlehem, teimlais yn syth na chawn fy nerbyn yno. Roedd fy acen yn chwithig ac yn fy rhoi mewn cornel. Roedd gwedd a lliw fy nghroen yn creu pellter rhyngof a'r bobl. Felly, penderfynais fod yn rhaid imi weithio'n galed yn y caeau; byddai hynny'n golygu y cawn fy nerbyn ymhen hir a hwyr, gobeithio. Ro'n i'n crymu dan yr haul tanbaid; cofleidiais hunan-barch wrth gasglu'r grawn. Dysgais hefyd sut y mae ffydd yn amlygu'r angen i fod yn bresennol, ynghanol pethau. Roeddwn yn wag, ond daliwn ar yr addewid y dôi pethau'n well.

Yna, gwelais Boas. Roedd yn ddyn pwysig yn ei gymuned. Cefais fy ngweld ganddo yntau a thrwyddo sylweddolais pa mor bwysig yw caredigrwydd. Nid f'achub i rhag unrhyw beth a wnaeth Boas, ond fy ngweld o fewn cyd-destun y cae. Tawelodd fy meddwl oherwydd iddo gynnig cysgod imi dan ei adain. Edrychodd ar fy ôl.

Rhennais hyn gyda Naomi – roedd y ddwy ohonom yn dweud popeth wrth ein gilydd. Ei chyngor hi oedd y dylwn fynd at Boas wedi iddo orffen gweithio a mynd i'w wely. Roedd ofn mentro arnaf, ond fe es i. Cysgodd Boas yn drwm drwy'r nos ac yn y bore synnodd fy ngweld mor agos ato. Ond chymerodd e ddim mantais ohonof, a mynnodd fy mharchu. Mewn gwirionedd, fe wnaeth imi deimlo'i fod yn dymuno fy newis ond ei fod yn dymuno gwneud hynny'n deilwng.

Priodwyd ni a chawsom gysgu gyda'n gilydd â pharch a chariad. Cefais fab ac fe deimlais fy mod yn perthyn unwaith eto. Heb yn wybod imi ar y pryd, byddwn yn hen fam-gu i frenin, oherwydd rhedodd fy ngwaed i linach Dafydd ac ymhellach na hynny hyd yn oed – i'r un a fyddai'n Waredwr y bobl. Digwyddodd hyn oherwydd imi ddewis bod yn driw ac yn ffyddlon er i'r pris fod yn uchel iawn.

Os cofiwch fi, cofiwch fod Duw yn gweithio ac yn gweithredu drwy bobl gyffredin a gwahanol – y rhai annisgwyl, nad ydynt efallai'n perthyn i neb na dim. Ac weithiau, mae angen penderfyniad yn eich ffyddlondeb. Cofiwch hynny!

**Holi**

- A gawsoch chi erioed eich herio i aros yn ffyddlon i rywun, i rywbeth, neu i ryw achos (bach neu fawr, hawdd neu anodd)?
- Sut allwn ni heddiw greu cymunedau Cristnogol sy'n cofleidio pobl ac yn cynnig lle cynhwysol iddyn nhw?
- Wyddoch chi am enghreifftiau o bobl sy'n gweithio'n ddygn a heb eu 'gweld'? Beth am ein harweinyddion eglwysig a'n gweinidogion?
- Sut all ein penderfyniadau ni, fel unigolion ac o fewn ein heglwysi, arddel ffyddlondeb i'r egwyddorion gorau ond eto bod yn gyffrous yn ein mentergarwch?

**Gweddi** (seiliedig ar Philipiaid 4:8)
Rho inni'r awyddfryd i lynu at y rhinweddau gorau: yr hyn sy'n wir ac i'w edmygu, beth sy'n iawn i'w wneud, yn bur, yn garedig ac yn anrhydeddus, popeth da ac unrhyw beth sy'n haeddu ei ganmol. Amen.

S4C

*Dechrau Canu, Dechrau Canmol*
**Sul, 8 Chwefror, am 7:30yh – Cynefin William Morgan**
Nia Roberts sydd ar grwydr yng Nghwm Machno, bro mebyd yr Esgob William Morgan, cyfieithydd y Beibl i'r Gymraeg. Mae'n ymweld â'i gartref cyntaf, Tŷ Mawr Wybrnant, ac yn clywed am adfywiad Eglwys Sant Tudclud, Penmachno, diolch i ewyllys da a gwaith caled y gymuned gyfan. Daw'r emynau o addoldai ledled Cymru, gan gychwyn a gorffen yng Nghadeirlan Llanelwy, lle roedd William Morgan yn esgob am flynyddoedd olaf ei fywyd. A chawn fwynhau perfformiad swynol gan Lily Mohammad.

BBC radio cymru

*Caniadaeth y Cysegr*
**Sul, 8 Chwefror, am 7:30yb a 4:30yp**
Amrywiaeth o emynau yng nghwmni Mair Beech Williams

*Oedfa Radio Cymru*
**Sul, 8 Chwefror, am 12:00yp**
Oedfa dan arweiniad Trystan Owain Hughes, Caerdydd

# Dydd Gweddi'r Byd, 6 Mawrth 2026

## Mudiad eciwmenaidd, byd-eang a arweinir gan ferched

## "Rhoddaf orffwys i chi, dewch"



Mudiad sy'n rhannu gobeithion, consýrn a gweddïau merched drwy'r byd yw Dydd Gweddi'r Byd. Bob blwyddyn bydd gwragedd o wlad wahanol yn creu gwasanaeth sy'n adlewyrchu eu taith ysbrydol a'u diwylliant. Eleni, merched Nigeria fu'n ei baratoi, gan leisio'u hangen am heddwch a chysur mewn byd sy'n llawn o ymrafael a phryder.

Maent yn ein gwahodd i ymuno â hwy ddydd Gwener, 6 Mawrth 2026, mewn gwasanaeth sy'n adlewyrchu'r thema o Efengyl Mathew 11:28–30: "Rhoddaf orffwys i chi, dewch".

Mae'r Dydd Gweddi yn brawf o undod byd-eang, ac ymunwn â thon ryfeddol o weddi sy'n cylchu'r byd, gan gychwyn o Samoa a diweddu 38 awr yn ddiweddarach yn Samoa Americanaidd.

Erioed wedi cynnal gwasanaeth o'r blaen? Peidiwch â phoeni!

Am wybodaeth bellach, cysylltwch â chynrychiolydd Cymru ar y Pwyllgor Rhyngwladol: nestamarydavies@gmail.com; 07870323790.

Am daflenni a phosteri, cysylltwch â'r Dosbarthwr: margaretmaudmorgan@gmail.com

Mae'r adnoddau digidol yma hefyd ar gael i'ch cynorthwyo gyda'ch gweithgarwch Dydd Gweddi'r Byd:

- fersiwn digidol o'r gwasanaeth
- cyflwyniad PowerPoint a sgript Cefndir Nigeria
- Taflen Gweithgaredd Plant

**Sesiwn Llan Llanast**

Eleni, mae Pwyllgor Dydd Gweddi'r Byd wedi cydweithio â thîm Messy Church (sy'n rhan o BRF) i greu gwasanaeth wedi'i seilio ar y deunydd sydd wedi cael ei ysgrifennu gan ferched Nigeria. Mae'n dilyn patrwm arferol Messy Church – Llan Llanast i ni yma yng Nghymru – ac yn cynnwys gweithgareddau amrywiol a hwyliog sy'n cyflwyno'r thema 'Rhoddaf orffwys i chi, dewch'. Mae cynnal sesiwn Llan Llanast yn ffordd wych o gynnwys pobl o bob oed a bydd defnyddio'r sesiwn hon yn ffordd dda o gyflwyno Dydd Gweddi'r Byd i gynulleidfaoedd newydd.

Mae'r holl adnoddau ar gael am ddim gan eirianroberts@ebcpcw.cymru neu sarah.morris@ebcpcw.cymru

Gweler hefyd dudalen Facebook 'Dydd Gweddi'r Byd'. Anfonwch luniau o'ch gwasanaeth (grwpiau yn hytrach nag unigolion) at: parchbetiwyn@gmail.com.

Dewch, ymunwch â'r don o gariad a gweddi byd-eang, a chyfrannwch at brosiectau sy'n cael eu rhedeg gan elusennau Cristnogol o gwmpas y byd. Cewch wefr – a'ch gwerthfawrogi!

*Nesta Davies*




## Eglwys Bresbyteraidd Cymru – Tŷ Barclay, Aberystwyth

Mae Ymddiriedolaeth Tŷ Barclay yn cynnig llety gwyliau hunanddarpar i weinidogion a gweithwyr Adran Gweinidogaethau EBC, gan gynnwys gweinidogion wedi ymddeol a'u gweddwon.

Croesewir ymholiadau ar
01970 624802

## Ceisiadau ar gyfer derbyn medal Gee – 2026

Daeth yn amser unwaith eto i eglwysi gyflwyno ceisiadau ar ran y rhai hynny sy'n gymwys i dderbyn y fedal arbennig hon. Gwahoddir ceisiadau am fedalau ar ran aelodau sydd dros 75 oed ac wedi mynychu'r Ysgol Sul yn gyson ar hyd eu bywydau. Trefnir cyfarfodydd yn lleol i gyflwyno'r medalau, gan amlaf yn nalgylch y rhai sy'n derbyn y medalau. Cyflwynir y medalau hyn rhwng mis Medi a Rhagfyr 2026. Noder mai 30 Mehefin yw dyddiad cau derbyn ceisiadau. Tybed oes yna rywrai yn eich eglwys chi sydd wedi bod yn ffyddlon, un ai fel athro ar y plant neu'n rhan o ysgol Sul neu ddosbarth Beiblaidd ar gyfer oedolion? Ewch ati i wneud cais ...

Mae mwy o wybodaeth a ffurflen gais ar gael o'n gwefan: Medalau Gee – Cyngor Ysgolion Sul ac Addysg Gristnogol Cymru

Gyda diolch,

*Aled Davies*
*Cyfarwyddwr Cyngor Ysgolion Sul Cymru*



# Myfyrdod ar gyfer Sul Cyfiawnder Hiliol, 8 Chwefror 2026

**Cost Heddwch - myfyrdod ar gyfer Sul Cyfiawnder Hiliol 2026**

**Darlleniad: 2 Corinthiaid 5:11–21**

Bydd hanes yn cofnodi erchyllterau pob rhyfel. Ond pan fydd haneswyr yn nodi'r blynyddoedd cynnar hyn yn nhrydydd degawd yr 21ain ganrif, byddant yn sôn am amgylchiadau pobl Wcráin ar ôl wynebu ymosodiad gan Rwsia, a phobl Palesteinaidd Llain Gaza yn dioddef yn sgil bomio gan Israel. Yn ddiamau, bydd gwleidyddion a haneswyr yn dadansoddi helbul y rhai nad oedd yn gyfrifol am ddechrau rhyfeloedd ond sydd wedi dioddef y tu hwnt i'n dealltwriaeth. Eto, ni fydd neb yn gallu deall realiti rhyfel oni bai eu bod yn ei brofi drostynt eu hunain. Wrth i mi ysgrifennu, mae'r erchyllterau hyn yn parhau, ond rydym i gyd yn gweddïo y bydd y rhyfeloedd yn dod i ben ac y bydd cynllun ar y cyd yn cael ei ddatblygu i ailadeiladu dyfodol y bobloedd hyn.

Yn 2025 nodwyd 80 mlynedd ers diwedd yr Ail Ryfel Byd, ac mae nifer y rhai oedd yn rhan o'r Lluoedd Arfog bryd hynny, yn naturiol, yn mynd yn llai bob blwyddyn. Bu llawer o ryfeloedd eraill, yn enwedig ar gyfandir Affrica. Rhyfeloedd cartref oedd y rhain yn bennaf, ond nid yn llai erchyll a thrasig. Mae angen i ddynolryw gofio cost pob rhyfel, nid yn unig o ran y cyllid ar gyfer arfau a'r angen i ailadeiladu'r isadeiledd, ond y gost mewn bywydau dynol, wrth ddinistrio cymunedau a'u gwead cynhenid, yn yr ymddiriedaeth rhwng y naill gymuned a'r llall, a'r berthynas rhwng cenhedloedd a'i gilydd.

Nid dim ond y gwrthwyneb i ryfel yw heddwch, ond yn hytrach ymgysylltu'n gadarnhaol â'n cymdogion a'n cyd-ddyn. Felly, mae angen i ni ofyn yn 2026, beth bynnag ddigwyddodd yn 2025, sut mae'r eglwys yn hybu heddwch, a phwy sy'n talu pris cymod? Gall ymddangos yn gymharol hawdd i ddiwinyddion gytuno ar gynllun penodol, ond mae galluogi'r rhai sydd wedi dioddef i gyflawni nod mor ogoneddus yn fater arall. Pan ddaw rhyfel i ben, mae adeiladu heddwch yn dasg aruthrol. Mae'n galw ar gyn-elynion i estyn ar draws tir neb ac estyn llaw heddwch i'w gilydd.

Gall cyfrifiadur gynllunio adeiladu pontydd go iawn; mae adeiladu 'pontydd ar draws dyfroedd cythryblus' yn galw am adnoddau ysbrydol. O groes gwrthodiad a gwarth, rhoddodd Iesu faddeuant i'r rhai oedd wedi hoelio'i ddwylo a'i draed i'r pren, i'r rhai a'i gwatwarodd â geiriau chwerw o gasineb, ac a floeddiodd i ddathlu eu buddugoliaeth wleidyddol. Roedd Iesu'n gallu maddau ond a yw'r natur honno o fewn gafael Cristnogion yn Wcráin ac yn Rwsia? Pan mae'r Pab Leo XIV yn apelio am heddwch rhwng Rwsia ac Wcráin, a oes gan yr Eglwys Uniongred yn y ddwy wlad y nerth ysbrydol i apelio am drugaredd, y naill at y llall, ac ymbil am faddeuant?

Mae cyfiawnder hiliol yn hanfodol yng ngweddïau ac agwedd pob Cristion. Yn yr amser a neilltuwyd ar gyfer cyfiawnder hiliol yn ein traddodiadau ein hunain, mae angen i ni geisio nerth a gras Duw i bawb, gan gynnwys ni ein hunain, i ddeall arwyddocâd y groes yn ein hamseroedd cythryblus. Yn ei hanfod, y groes yw'r lle i adael ein poen a'n heuogrwydd wrth i gyn-elynion geisio cymorth Duw i deithio tuag at gymod.

Canlyniad cyfiawnder a gras ar waith yw heddwch, gan greu cyfle i ni gyffesu ein pechodau a cheisio maddeuant. Byddai'r Parch. Morgan John Rees, diwinydd o Gymro a deithiodd i Ffrainc yn ystod y rhyfel cartref er mwyn dysgu am ddemocratiaeth newydd, yn aml yn dweud mai 'Heddwch yw plentyn Cyfiawnder'. Dysgodd fod Senedd Prydain wedi deall yn anghywir ei fod yn fygythiad i awdurdod y brenin, a dihangodd i America, pan oedd eu rhyfel cartref ar y gweill. Roedd yn cydymdeimlo â chymunedau'r Cenhedloedd Cyntaf yn yr Unol Daleithiau, ac yn ymbil am gyfiawnder.

Arweiniodd y Parch. Ddr Gustavo Parajon yr eglwysi yn Nicaragua yn dilyn y rhyfel cartref yno (1978–1990) ochr yn ochr ag Archesgob Managua i iachâu'r genedl. Yn yr un modd, arweiniodd yr Esgob Desmond Tutu arweinwyr eglwysig eraill



i ddod â'r holl garfanau amrywiol oedd yn rhan o frwydrau eu gwlad i geisio cytgord ymhlith y gwahanol gymunedau Affricanaidd Cynhenid a'r gymuned Wen.

Bydd llawer yn cofio arswyd rhyfel cartref yn Rwanda (1990–1994), a'r hil-laddiad a orchmynnodd yr Hutus ar y Tutsis. Yn ei chyfrol *Liliau Tân*, a gyhoeddwyd gan Gyhoeddiadau'r Gair, ysgrifennodd Dr Rhiannon Lloyd o Landudno am yr ymdrechion i adfer ymddiriedaeth a chytgord rhwng y gwahanol garfanau yno.

Gwelwyd rhai enghreifftiau o derfysg difrifol ym Mhrydain ac Iwerddon yn sgil y mewnlifiad o ffoaduriaid sy'n croesi'r Sianel i geisio lloches. Mae rhai carfanau'n dadlau bod yn rhaid eu hanfon yn ôl i'r mannau y daethant ohonynt. Ond beth fyddai Iesu yn ei ddweud wrth y ffoaduriaid sydd wedi cyrraedd Prydain ac Iwerddon yn ogystal â gweddill tir mawr Ewrop? Bydd 2026 yn gyfle i gymuned yr eglwys ym Mhrydain ac Iwerddon ystyried ei dealltwriaeth ddiwinyddol o geisio cyfiawnder mewn cymuned anghyfiawn.

Ni allwn ond gofyn sut y gallwn adeiladu heddwch mewn byd anghyfiawn. Efallai y gallwn ddeall bod cyfiawnder gwirioneddol wedi'i wreiddio mewn gras ac nid mewn dial, a bod pob casineb yn gwrthweithio cariad. Heriodd 'goleuni'r byd' bob tywyllwch, a maddau i'r rhai a'i hoeliodd ar groes, gan wrthod ei wahoddiad i'w ddilyn. Dim ond pan fyddwn yn caru ein gilydd fel y mae Iesu yn ein caru ni y bydd cyfiawnder hiliol yn rhywbeth real.

*Denzil Ieuan John*

Os ydych yn poeni am unigolyn neu sefyllfa ac angen cyngor diogelu, cysylltwch â'r Panel Diogelu Cydenwadol 01745817584 / 07957510346 yn ystod oriau swyddfa

post@panel.cymru panel.cymru

neu Thirtyone:eight 0303 003 1111 (am gyngor tu allan i oriau swyddfa)

Cyhoeddir *Cenn@d* ar y cyd gan Eglwys Bresbyteraidd Cymru ac Undeb Bedyddwyr Cymru.
Oni nodir yn wahanol, nid yw barn cyfranwyr *Cenn@d* yn cynrychioli barn swyddogol Eglwys Bresbyteraidd Cymru nac Undeb Bedyddwyr Cymru.
Gallwch anfon eich cyfraniadau / gohebiaethau / ymholiadau at:
huw@cennad.cymru | aled@ysgolsul.com
www.cennad.cymru CennadCymru @CennadCymru